# Pedr yn Iacháu'r Dyn oedd yn Methu Cerdded

Lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Siwsan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Ar ôl i Pedr ac Ioan gael eu llenwi â'r Ysbryd Glân buon nhw'n siarad am Iesu, yr un oedd wedi dod i'w gwneud yn rhydd o'u pechodau a'r un oedd wedi atgyfodi, ac fe wnaethon nhw iacháu pobl yn ei enw.



Aeth Pedr ac Ioan, dau o ddisgyblion Iesu, gyda'i gilydd i'r deml yn Jerwsalem i'r cyfarfod gweddi yn y prynhawn. Yn ymyl y fynedfa sy'n cael ei galw'n Fynedfa Hardd, fe welson nhw ddyn oedd yn methu cerdded.



Doedd o erioed, ers diwrnod ei eni,wedi cerdded ac roedd ei goesau'n wan. Byddai ei ffrindiau'n ei roi i eistedd yn agos i'r deml fel bod pobl garedig a oedd yn mynd heibio yn rhoi bwyd ac arian iddo.



Pan welodd Pedr y dyn oedd yn methu cerdded dywedodd wrtho, "Edrycha arnaf fi. Does gen i ddim arian ond fe gei di beth sydd gen i i'w roi ti."




Gafaelodd Pedr yn llaw y dyn a dyna fo'n dweud wrtho, "Yn enw Iesu Grist o Nasareth, saf ar dy draed a cherdda!"



Doedd y dyn oedd yn methu cerdded ddim yn disgwyl gwyrth, ond dyna beth roddodd Duw iddo. Ar amrantiad wnaeth ei draed a'i fferau gryfhau.



Am y tro cyntaf yn ei fywyd safodd ar ei draed a dechreuodd neidio, moli a diolch o waelod calon i Dduw. Roedd pobl wedi'u syfrdanu pan welson nhw'r wyrth hon.



"Does gen i mo'r pŵer i wneud i'r dyn hwn gerdded," meddai Pedr. "Mae o wedi cael ei iacháu drwy gredu'n Iesu Grist sydd wedi'i atgyfodi oddi wrth y meirw." Y diwrnod hwnnw fe gredodd llawer iawn o bobl yn Iesu.